



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Hysbysiad Gwybodaeth Cyllid Myfyrwyr Cymru

SFWIN 01/2020

Memorandwm ariannol

Cyfraddau cymorth myfyrwyr ar gyfer blwyddyn academiaidd
2020/21

Ionawr 2020

Cyflwyniad

Mae'r Hysbysiad Gwybodaeth hwn yn disgrifio cyfraddau'r prif fenthyciadau a grantiau a'r rhai atodol, graddfeydd y cyfraniadau a chyfraddau'r ffioedd dysgu ar gyfer cymorth i israddedigion ac ôl-raddedigion ym mlwyddyn academaidd 2020/21. Gall y cyfraddau hyn amrywio o flwyddyn i flwyddyn.

Mae'r ffigurau a nodir yn yr Hysbysiad Gwybodaeth hwn yn berthnasol i fyfyrwyr a ddechreuodd eu cwrs ar neu ar ôl 1 Medi 2012 neu'n hwyrach ble nodwyd hynny. Gweler fersiwn 2017/18 o'r ddogfen hon am gyfraddau cymorth i fyfyrwyr israddedig sy'n parhau ar gwrs a ddechreuodd cyn 1 Medi 2012.

Mae'r cyfraddau hyn yn destun rheoliadau sydd wrthi'n cael eu llunio. Os bydd gwahaniaeth rhwng y rheoliadau a'r ddogfen hon, y rheoliadau sy'n drech.

Mae'r ddogfen hon ar gael gan <https://llyw.cymru/cyllid-i-fyfyrwyr>

Termau

Myfyriwr cohort 2012	Myfyriwr a ddechreuodd gwrs llawn amser ar neu ar ôl 1 Awst 2012
Myfyriwr cohort 2018	Myfyriwr a ddechreuodd gwrs llawn amser ar neu ar ôl 1 Awst 2018
Cwrs mynediad carlam i raddedigion	Cwrs nad yw'n para mwy na pedair blynedd sy'n arwain at gymhwyster fel meddyg neu ddeintydd.
Cyrsiau AGA	Cyrsiau Addysg Gychwynnol Athrawon.
Darparwr cyffredin	Darparwr y mae ei gyrsiau wedi'u dynodi gan y rheoliadau cymorth i fyfyrwyr. Gweler rheoliad 5 o Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) 2017, a rheoliad 5 o Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018.
Darparwr preifat	Darparwr y mae ei gyrsiau wedi'u dynodi gan Weinidogion Cymru gan ddefnyddio eu pwerau yn y rheoliadau. Gweler rheoliad 5(8) o Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) (Cymru) 2017, a rheoliad 8 o Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018.
<i>Lleoliad y myfyriwr (cohort 2018)</i>	
Cartref rhiant	Mae'r myfyriwr yn byw yng nghartref ei riant wrth ddilyn y cwrs cyfredol.
Llundain	Mae'r myfyriwr yn byw i ffwrdd o gartref ei riant tra fydd yn (ii) dilyn cwrs ym Mhrifysgol Llundain, (ii) yn dilyn cwrs mewn sefydliad sy'n gofyn am bresenoldeb yn y flwyddyn academiaidd ar safle sy'n gyfan gwbl neu'n rhannol yn Llundain ble mae o leiaf hanner unrhyw chwarter o'r cwrs yn cael ei ddarparu mewn safle o'r fath, neu (iii) yn dilyn cwrs rhyngosod yn y flwyddyn academiaidd mewn sefydliad sy'n gofyn i'r myfyrwyr gwblhau profiad gwaith, neu gyfuniad o brofiad gwaith ac

	<p>astudio, yn Llundain lle mae'r profiad gwaith hwnnw neu gyfuniad o brofiad gwaith ac astudio, yn cael ei wneud am o leiaf hanner unrhyw chwarter.</p>
Rhywle arall	<p>Mae'r myfyriwr yn byw i ffwrdd o gartref ei riant ond nid yw'n astudio yn Llundain, yn cynnwys mynychu sefydliad y tu allan i'r Deyrnas Unedig fel rhan o gwrs y myfyriwr neu'n cwblhau lleoliad gwaith tramor mewn blwyddyn ERASMUS+.</p>

Trosolwg

Adran A	9
Cymorth ffioedd a chynhaliaeth i fyfyrwyr cohort 2018 llawn amser	
Adran B	15
Cymorth ffioedd a chynhaliaeth i fyfyrwyr cohort 2012 llawn amser	
Adran C	23
Cymorth ffioedd a chynhaliaeth i fyfyrwyr rhan-amser	
Adran D	27
Cymorth ychwanegol i fyfyrwyr llawn amser	
Adran E	30
Cymorth ychwanegol i fyfyrwyr rhan-amser	
Adran F	32
Cymorth i fyfyrwyr ar gyrsiau'r GIG	
Adran G	36
Cymorth i fyfyrwyr ar gyrsiau ôl-raddedig	
Adran H	38
Tablau enghreifftiol	

Tabl Cynnwys

Cyflwyniad	2
Termau	3
Trosolwg	5
Tabl Cynnwys	6
Rhestr tablau.....	Error! Bookmark not defined.
Adran A.....	9
Cymorth ffioedd a chynhaliaeth i fyfyrwyr cohort 2018 llawn amser.....	9
A1: Cymorth ffioedd.....	9
A2: Cymorth cynhaliaeth	11
Adran B.....	15
Cymorth ffioedd a chynhaliaeth i fyfyrwyr cohort 2012 llawn amser.....	15
B1: Cymorth ffioedd.....	15
B2: Cymorth cynhaliaeth	17
Adran C.....	23
Cymorth ffioedd a chynhaliaeth i fyfyrwyr rhan-amser	23
C1: Benthyciadau ffioedd ar ôl 1 Medi 2014	23
C2: Grantiau ffioedd cyn 1 Medi 2014	23
C3. Cymorth cynhaliaeth ar gyfer myfyrwyr 2018	24
C4. Cymorth cynhaliaeth ar gyfer myfyrwyr 2014	25
C5. Cyrsiau AGA rhan-amser	26
Adran D.....	27
Cymorth ychwanegol i fyfyrwyr llawn amser	27
D1: Benthyciadau cynhaliaeth uwch ar gyfer blynyddoedd estynedig	27
D2: Lwfans/Grant Myfyriwr Anabl	27
D3: Grantiau i Ddibynyddion.....	28
D4: Grant Teithio	29
D5: Lwfans/Grant Myfyriwr Anabl i fyfyrwyr ôl-raddedig.....	29
Adran E.....	30
Cymorth ychwanegol i fyfyrwyr rhan-amser.....	30
E1: Lwfans/Grant Myfyriwr Anabl	30
E2: Grantiau i Ddibynyddion	30
Adran F.....	32

Cymorth i fyfyrwyr ar gyrsiau'r GIG.....	32
F1: Meddygaeth a deintyddiaeth	32
F2: Nyrsys a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill.....	34
Adran G	36
Cymorth i fyfyrwyr ar gyrsiau ôl-raddedig	36
G1: Cwrs meistr.....	36
G2: Doethurol.....	36
Adran H.....	38
Tablau eglurhaol	38

Rhestr tablau

Tabl 1: Cyfraddau benthyciad ffioedd, cohort 2018	Error! Bookmark not defined.
Tabl 2: Swm cymwys o gymorth byw	Error! Bookmark not defined.
Tabl 3: Isafswm y benthyciad cynhaliaeth sydd ar gael.....	13
Tabl 4: Cyfraddau benthyciad cynhaliaeth, cohort 2018.....	14
Tabl 5: Cyfraddau benthyciad cynhaliaeth, cohort 2012.....	Error! Bookmark not defined.
Tabl 6: Cyfraddau benthyciad cynhaliaeth ar gyfer myfyrwyr na aseswyd eu hincwm, cohort 2012.....	Error! Bookmark not defined.
Tabl 7: Cymorth ffioedd ar gyfer astudio'n rhan-amser, ar ôl 1 Medi 2014.....	23
Tabl 8: Cymorth ffioedd ar gyfer astudio'n rhan-amser, cyn 2014	23
Tabl 9: Cymorth cynhaliaeth ar gyfer astudio'n rhan-amser, myfyrwyr 2014.....	25
Tabl 10: Benthyciad cynhaliaeth ychwanegol mewn blynyddoedd estynedig	27
Tabl 11: Lwfans/Grant Myfyriwr Anabl.....	27
Tabl 12: Diystyru incwm ar gyfer Grantiau i Ddibynyddion	29
Tabl 13: Lwfans/Grant Myfyriwr anabl, astudio'n rhan-amser	30
Tabl 14: Cymorth ffioedd ar gyfer meddygaeth a deintyddiaeth (pedair blynedd)	32
Tabl 15: Cymorth cynhaliaeth ar gyfer meddygaeth a deintyddiaeth (pedair blynedd).....	33
Tabl 16: Cymorth ffioedd ar gyfer meddygaeth a deintyddiaeth (pum mlynedd)	33
Tabl 17: Cymorth cynhaliaeth ar gyfer meddygaeth a deintyddiaeth (pum mlynedd).....	34
Tabl 18: Benthyciadau cyfradd is i nyrsys a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill sy'n astudio yng Nghymru	35
Tabl IT1: Hawl i grant a benthyciad cynhaliaeth yn ôl lefel incwm, cohort 2018 (£oedd) Error! Bookmark not defined.	

Tabl IT2: Hawl i grant a benthyciad cynhaliaeth i'r rhai sy'n gymwys am Daliad Cymorth Arbennig yn ôl lefel incwm, cohort 2018 (£oedd)..... **Error! Bookmark not defined.**

Tabl IT3: Hawl i grant a benthyciad cynhaliaeth yn ôl lefel incwm, cohort 2012 (£oedd) **Error! Bookmark not defined.**

Tabl IT4: Hawl i Grant Cymorth Arbennig a benthyciad yn ôl lefel incwm, cohort 2012 (£oedd) **Error! Bookmark not defined.**

Tabl IT5: Asesiad o gyfraniad aelwyd yn ôl lefel incwm, cohort 2012 (£oedd) **Error! Bookmark not defined.**

Tabl IT6: Hawl myfyrwyr rhan-amser i grant a benthyciad yn ôl lefel incwm a dwysedd astudio, cohort 2012 (£oedd) **Error! Bookmark not defined.**

Tabl IT7: Hawl myfyrwyr cyrsiau Meistr Ôl-raddedig i grant a benthyciad yn ôl lefel incwm (£oedd) **Error! Bookmark not defined.**

Adran A

Cymorth ffioedd a chynhaliaeth i fyfyrwyr cohort 2018 llawn amser

A1: Cymorth ffioedd

Gall myfyrwyr llawn amser sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru ac sy'n dechrau eu cyrsiau addysg uwch ar neu ar ôl 1 Awst 2018 fod yn gymwys am fenthyciad ffioedd (tabl 1). Nid yw'r benthyciad ffioedd yn dibynnu ar brawf modd.

Tabl 1: Cyfraddau benthyciad ffioedd, cohort 2018

	Uchafswm benthyciad ffioedd (£)
Darparwr cyffredin	9,250
Darparwr preifat	6,165

Bydd lefel y ffi y mae disgwyl i fyfyrwyr ei thalu yn dibynnu ar ble maent yn dewis astudio. Y ffi uchaf y gall darparwyr addysg uwch cyffredin ei chodi yn 2020/21 yw £9,000 yng Nghymru, a £9,250 yng ngweddill y DU. Nodwch nad oes rhaid i ddarparwyr preifat gydymffurfio â chapiau ffioedd. Y ffi uchaf ar gyfer cyrsiau gradd carlam yn Lloegr yw £11,100. Fodd bynnag, gellir ond cael hyd at £9,250 o fenthyciad ffioedd a bydd rhaid i'r myfyriwr dalu'r gweddill. Mae hyn yn berthnasol i fyfyrwyr sy'n dilyn cyrsiau gradd carlam a myfyrwyr sy'n dilyn cyrsiau gyda darparwyr nad oes rhaid iddynt gydymffurfio â'r cap ffioedd.

Cymorth ffioedd uchaf mewn achosion arbennig

Mae'r rheoliadau'n darparu ar gyfer gwahanol symiau o gymorth ffioedd mewn rhai achosion.

Blwyddyn olaf

Bydd y benthyciad ffioedd dysgu uchaf sydd ar gael yn gostwng ym mlwyddyn academiaidd olaf cyrsiau lle mae dyddiad diwedd y cwrs yn gynt a'r myfyriwr yn gorfod astudio am lai o amser (llai na 15 wythnos o astudio). Bydd hyd at £4,625 o fenthyciad ffioedd dysgu ar gael ar gyfer cyrsiau o'r fath mewn darparwr cyffredin lle gellir codi hyd at £9,250, a hyd at £3,080 ar gael i'r rhai sy'n cael eu darparu mewn sefydliad preifat. Pan fydd y ffioedd uchaf yn £9,000, bydd y benthyciad ffioedd dysgu ar gyfer cyrsiau o'r fath yn £4,500 i'r rhai sy'n cael eu darparu mewn darparwr cyffredin.

Myfyrwyr mewn darparwyr yng Nghymru a Lloegr

Bydd myfyrwyr cohort 2018 sy'n cwblhau blwyddyn astudio dramor y tu allan i gynllun ERASMUS+ yn gorfod talu ffi dysgu o hyd at 15% o gap ffioedd uchaf y darparwr. Bydd myfyrwyr cymwys sy'n preswyl fel arfer yng Nghymru ac yn astudio ar gwrs dynodedig yn gallu derbyn cymorth ffioedd hyd at uchafswm y ffioedd dysgu a godir (£1,350 lle mae'r uchafswm ffioedd yn £9,000 a £1,385 lle mae'n £9,250). Bydd uchafswm y benthyciad ffioedd y gellir ei hawlio ar gyfer cyrsiau mewn sefydliad preifat yn y sefyllfa hon yn £920¹.

Bydd myfyrwyr cohort 2018 sy'n treulio blwyddyn dramor yn astudio neu'n gweithio o fewn cynllun ERASMUS+ yn gorfod talu ffi dysgu o hyd at 15% o gap ffioedd uchaf y darparwr. Bydd myfyrwyr cymwys sy'n astudio ar gwrs dynodedig yn gallu derbyn cymorth ffioedd hyd at uchafswm y ffioedd dysgu a godir (£1,350² lle mae'r uchafswm ffioedd yn £9,000 a £1,385³ lle mae'n £9,250). Nid yw sefydliadau preifat yn cymryd rhan yng nghynllun ERASMUS+.

Bydd myfyrwyr cohort 2018 sy'n cwblhau blwyddyn o leoliad gwaith fel rhan o gwrs rhyngosod yn gorfod talu ffi dysgu o hyd at 20% o gap ffioedd uchaf y darparwr. Bydd myfyrwyr cymwys yn gallu derbyn benthyciad ffioedd dysgu hyd at uchafswm y ffi dysgu a godir (£1,800 a £1,850, ble mae'r uchafswm ffioedd yn £9,000 a £9,250, yn y drefn honno). Bydd uchafswm y benthyciad ffioedd y gellir ei hawlio ar gyfer cyrsiau mewn sefydliad preifat yn y sefyllfa hon yn £1,230⁴.

Myfyrwyr mewn darparwyr yn yr Alban

Bydd myfyrwyr cohort 2018 mewn darparwyr cyffredin yn yr Alban sy'n cwblhau blwyddyn dramor yn astudio neu'n gweithio y tu allan i gynllun ERASMUS+ yn gorfod talu ffi dysgu o hyd at 50% o gap ffioedd uchaf y darparwr. Bydd myfyrwyr cymwys yn gallu derbyn benthyciad ffioedd o hyd at £4,625 ar gyfer y ffi dysgu a godir. Bydd uchafswm y benthyciad ffioedd y gellir ei hawlio ar gyfer cyrsiau mewn sefydliad preifat yn y sefyllfa hon yn £3,080 (Categori 4).

Bydd myfyrwyr cohort 2018 mewn darparwyr cyffredin yn yr Alban sy'n treulio blwyddyn dramor yn astudio neu'n gweithio o fewn cynllun ERASMUS+ yn gorfod talu ffi dysgu o hyd at 15% o gap ffioedd uchaf y darparwr. Bydd myfyrwyr cymwys

¹ £920 yw 15% o £6,165 wedi'i dalgrynnu i'r £5 cyflawn agosaf.

² £1,350 yw 15% o £9,000 wedi'i dalgrynnu i'r £5 cyflawn agosaf.

³ £1,385 yw 15% o £9,250 wedi'i dalgrynnu i'r £5 cyflawn agosaf.

⁴ £1,230 yw 20% o £6,165 wedi'i dalgrynnu i'r £5 cyflawn agosaf.

yn gallu derbyn benthyciad ffioedd o hyd at £1,385 ar gyfer y ffioedd dysgu a godir. Nid yw sefydliadau preifat yn cymryd rhan yng nghynllun ERASMUS+ (Categori 6).

Bydd myfyrwyr cohort 2018 mewn darparwyr yn yr Alban sy'n cwblhau blwyddyn o leoliad gwaith fel rhan o gwrs rhyngosod yn 2020/21, yn gallu derbyn benthyciad ffioedd dysgu hyd at £4,625.. Bydd uchafswm y benthyciad ffioedd dysgu y gellir ei hawlio ar gyfer cyrsiau mewn sefydliad preifat yn y sefyllfa hon yn £3,080 (Categori 3).

Myfyrwyr mewn darparwyr yng Ngogledd Iwerddon

Bydd myfyrwyr cohort 2018 ar gyrsiau mewn darparwyr yng Ngogledd Iwerddon, ac sy'n treulio rhan o flwyddyn dramor ar leoliad astudio neu waith y tu allan i gynllun ERASMUS+ (mae darparwyr Gogledd Iwerddon yn hepgor ffioedd i fyfyrwyr ERASMUS+ ac nid oes angen cymorth ffioedd) yn gallu cael benthyciad ffioedd dysgu o hyd at £4,625. Bydd uchafswm y benthyciad ffioedd dysgu y gellir ei hawlio ar gyfer cyrsiau mewn sefydliad preifat yn y sefyllfa hon yn £3,080.

Bydd myfyrwyr cohort 2018 mewn darparwyr yng Ngogledd Iwerddon, ac sy'n cwblhau blwyddyn o leoliad gwaith fel rhan o gwrs rhyngosod yn 2020/21, yn gallu cael benthyciad ffioedd dysgu o hyd at £4,625. Bydd uchafswm y benthyciad ffioedd dysgu y gellir ei hawlio ar gyfer cyrsiau mewn sefydliad preifat yn y sefyllfa hon yn £3,080.

Myfyrwyr sy'n dilyn cwrs mynediad carlam i raddedigion yn y DU

Mae myfyrwyr sy'n dilyn cwrs mynediad carlam i raddedigion mewn darparwr cyffredin yn y DU yn gymwys am fenthyciad ffioedd o hyd at £5,785.

A2: Cymorth cynhaliaeth

Mae gan fyfyrwyr sy'n dechrau eu cyrsiau ar neu ar ôl 1 Awst 2018 hawl i gael cymorth cynhaliaeth ar gyfer costau byw ac astudio drwy gyfrwng grant sylfaenol, grant cynhaliaeth a benthyciad cynhaliaeth.

Yn amodol ar rai eithriadau, gall myfyrwyr llawn amser fod yn gymwys am grant sylfaenol nad yw'n dibynnu ar brawf modd o £1,000.

Mae'r grant cynhaliaeth ar gael i'r rhai sydd ag incwm aelwyd o hyd at £59,200. Mae uchafswm y grant ar gael i'r rhai sydd ag incwm aelwyd o £18,370 neu is. Mae cyfanswm y cymorth cynhaliaeth a'r gweddill rhwng benthyciad a grant yn dibynnu ar ble mae'r myfyriwr yn byw ac astudio, a'i incwm aelwyd, fel a ganlyn.

- Gall myfyrwyr sy'n byw gartref dderbyn hyd at £8,335 o gymorth cynhaliaeth. Mae hyd at £6,885 o grant ar gael. Mae hyn yn gostwng fesul £1 am bob £6.937 ychwanegol o incwm uwchben £18,370. Gellir cymryd y gweddill hyd at yr uchafswm o £8,335 fel benthyciad.
- Gall myfyrwyr sy'n byw oddi cartref, yn Llundain, dderbyn hyd at £12,260 o gymorth cynhaliaeth. Mae hyd at £10,124 o grant ar gael. Mae hyn yn gostwng fesul £1 am bob £4.475 ychwanegol o incwm uwchben £18,370. Gellir cymryd y gweddill hyd at yr uchafswm o £12,260 fel benthyciad.
- Gall myfyrwyr sy'n astudio oddi cartref, y tu allan i Lundain, dderbyn hyd at £9,810 o gymorth cynhaliaeth. Mae hyd at £8,100 o grant ar gael. Mae hyn yn gostwng fesul £1 am bob £5.750 ychwanegol o incwm uwchben £18,370. Gellir cymryd y gweddill hyd at yr uchafswm o £9,810 fel benthyciad.

Mae tabl IT1 yn adran H yn dangos symiau'r grantiau a benthyciadau sydd ar gael ar wahanol lefelau o incwm.

Taliad Cymorth Arbennig

Ni fydd rhan o'r cymorth gan Lywodraeth Cymru a roddir i fyfyrwyr sy'n derbyn rhai budd-daliadau penodol yn cael ei hystyried at ddiben cyfrifo eu hincwm wrth wneud cais am y budd-daliadau hynny.

Mae'r myfyrwyr cymwys yn cynnwys y rhai:

- sydd â phlant dibynnol ond nad oes ganddynt bartner;
- sydd â phlant dibynnol a bod eu partner yn fyfyrwr llawn amser hefyd;
- sy'n gymwys am rai budd-daliadau anabledd penodol.

Mae'r broses o gyfrifo hawl yn gymhleth. Mae'r rheoliadau'n cynnwys dau dabl er mwyn gallu cyfrifo symiau.

Tabl 2: Swm cymwys o gymorth byw

Colofn 1 Blwyddyn academaidd	Colofn 2 Lleoliad y myfyriwr	Colofn 3 Swm cymwys o gymorth byw i fyfyriwr cymorth arbennig (£)
Yn dechrau ar neu ar ôl 2018	Byw gartref	8,335
	Byw oddi cartref, astudio yn Llundain	12,260
	Byw oddi cartref, astudio rhywle arall	9,810

Tabl 3: Isafswm y benthyciad cynhaliaeth sydd ar gael

Colofn 1 Blwyddyn academaidd	Colofn 2 Lleoliad y myfyriwr	Colofn 3 Isafswm y benthyciad cynhaliaeth sydd ar gael (£)
Yn dechrau ar neu ar ôl 2018	Byw gartref	£3,665
	Byw oddi cartref, astudio yn Llundain	£5,630
	Byw oddi cartref, astudio rhywle arall	£4,405

Mae tabl IT2 yn adran H yn dangos y symiau o grantiau a benthyciadau sydd ar gael ar wahanol lefelau o incwm.

Benthyciadau cynhaliaeth cyfradd is

Mae rhai myfyrwyr yn gymwys am fenthyciad cynhaliaeth is yn unig (a chymorth grant fel y disgrifiwyd uchod). Y rhain yw:

- myfyrwyr ar leoliadau cwrs rhyngosod blwyddyn lawn â thâl lle mae'r cyfnodau o astudiaeth lawn amser yn llai na 10 wythnos i gyd;
- myfyrwyr sy'n gymwys am fwrsariâu'r GIG sy'n dibynnu ar brawf modd neu lwfansau Gofal Iechyd yr Alban sy'n dibynnu ar brawf modd (gweler adran F).

Mae'r cyfraddau wedi'u nodi yn nhabl 4.

Tabl 4: Cyfraddau benthyciad cynhaliaeth, cohort 2018

	Cyfradd is (£)	Cyfradd lawn (£)
Cartref rhiant	3,665	7,335
Llundain	5,630	11,260
Rhywle arall	4,405	8,810

Didyniad plentyn dibynnol

Efallai y bydd swm o incwm yn cael ei ddiystyru wrth gyfrif incwm yr aelwyd i'w ystyried ar gyfer pennu lefel y grant cynhaliaeth. Mae hyn yn berthnasol pan fo'r aelwyd yn cynnwys plentyn dibynnol heblaw'r myfyriwr.

Gellir diystyru £1,130 wrth gyfrif incwm aelwyd myfyrwyr cohort 2018 llawn amser.

Adran B

Cymorth ffioedd a chynhaliaeth i fyfyrwyr cohort 2012 llawn amser

B1: Cymorth ffioedd

Bydd lefel y ffioedd y bydd disgwyl i fyfyrwyr llawn amser sy'n fyfyrwyr cohort 2012 ar gyrсияu addysg uwch yn 2020/21 eu talu yn dibynnu ar ble maent yn dewis astudio. Bydd myfyrwyr sy'n byw yng Nghymru fel arfer ac yn astudio ar gwrs dynodedig sy'n codi ffi o hyd at £9,250 yn gallu gwneud cais am fenthyciad ffioedd nad yw'n dibynnu ar brawf modd o hyd at £4,720 i dalu rhan o'u ffioedd dysgu neu'r cyfan ohonynt. Bydd y rhai sy'n astudio ar gwrs dynodedig sy'n codi ffi o hyd at £9,000 yn gallu gwneud cais am fenthyciad ffioedd nad yw'n dibynnu ar brawf modd o hyd at £4,470, i dalu rhan o'u ffioedd dysgu neu'r cyfan ohonynt. Bydd y myfyrwyr hyn hefyd yn gymwys i wneud cais am grant ffioedd nad yw'n dibynnu ar brawf modd o hyd at £4,530. Nid oes rhaid ad-dalu'r grant ffioedd nad yw'n dibynnu ar brawf modd.

Bydd myfyrwyr llawn amser a fydd yn fyfyrwyr cohort 2012 mewn addysg uwch yn 2010/21 ac sy'n astudio cyrsiau dynodedig penodol mewn sefydliad preifat yn gallu cael benthyciad nad yw'n dibynnu ar brawf modd o hyd at £6,165 i dalu rhan o gostau'r ffioedd dysgu neu'r cyfan ohonynt. Nid oes grant ffioedd ar gael ar gyfer cyrsiau mewn sefydliad preifat.

Bydd lefel y ffioedd y mae disgwyl i fyfyrwyr eu talu yn dibynnu ar ble maent yn dewis astudio. Y ffi uchaf y gall darparwyr addysg uwch ei chodi yn 2020/21 yw £9,000 yng Nghymru, a £9,250 yng ngweddill y DU.

Myfyrwyr sy'n dilyn cwrs mynediad carlam i raddedigion yn y DU

Mae myfyrwyr sy'n dilyn cwrs mynediad carlam i raddedigion mewn darparwr cyffredin yn y DU yn gymwys am fenthyciad ffioedd o hyd at £5,785.

Cymorth ffioedd uchaf mewn achosion arbennig

Mae'r rheoliadau'n darparu ar gyfer gwahanol symiau o gymorth ffioedd mewn rhai achosion.

Blwyddyn olaf

Bydd uchafswm y cymorth ffioedd dysgu sydd ar gael yn llai yn ystod blwyddyn academaidd olaf cyrsiau sy'n gofyn am lai o astudio. Bydd hyd at £4,625 o gymorth

ffioedd dysgu ar gael ar gyfer cyrsiau o'r fath mewn darparwr cyffredin sy'n codi £9,250 (benthyciad ffioedd o hyd at £2,285 a grant ffioedd o hyd at £2,340) a benthyciad ffioedd o hyd at £3,080 ar gyfer y rhai sy'n cael eu darparu mewn sefydliad preifat. Pan fydd y ffioedd uchaf yn £9,000, bydd y cymorth ffioedd dysgu ar gyfer cyrsiau o'r fath yn £4,500 i'r rhai sy'n cael eu darparu mewn darparwr cyffredin (benthyciad ffioedd o hyd at £2,160 a grant ffioedd o hyd at £2,340).

Myfyrwyr mewn darparwyr yng Nghymru neu Loegr

Bydd myfyrwyr cohort 2012 sy'n cwblhau blwyddyn ar leoliad dramor (naill ai'n astudio neu'n gweithio fel rhan o gynllun ERASMUS+, ac ar leoliad astudio y tu allan i gynllun ERASMUS+) yn gorfod talu ffi dysgu o hyd at 15% o gap ffioedd uchaf y darparwr. Bydd myfyrwyr cymwys sy'n astudio ar gwrs dynodedig sy'n codi hyd at £9,250 yn gallu gwneud cais am hyd at £710 o fenthyciad ffioedd a £675 o grant ffioedd, cyfanswm o £1,385. Os yw uchafswm y ffioedd yn £9,000, gall myfyriwr wneud cais am fenthyciad ffioedd o hyd at £675 a grant ffioedd o hyd at £675, cyfanswm o £1,350. Bydd uchafswm y benthyciad ffioedd y gellir ei hawlio ar gyfer cyrsiau y tu allan i gynllun ERASMUS+ mewn sefydliad preifat yn yn £920⁵.

Bydd myfyrwyr cohort 2012 sy'n cwblhau blwyddyn o leoliad gwaith fel rhan o gwrs rhyngosod yn gorfod talu ffi dysgu o hyd at 20% o gap ffioedd uchaf y darparwr. Bydd myfyrwyr cymwys sy'n astudio ar gwrs dynodedig sy'n codi hyd at £9,250 yn gallu gwneud cais am hyd at £950 o fenthyciad ffioedd a £900 o grant ffioedd, cyfanswm o £1,850. Os yw uchafswm y ffioedd yn £9,000, gall myfyriwr wneud cais am fenthyciad ffioedd o hyd at £900 a grant ffioedd o hyd at £900, cyfanswm o £1,800. Bydd uchafswm y benthyciad ffioedd dysgu y gellir ei hawlio ar gyfer cyrsiau mewn sefydliad preifat yn y sefyllfa hon yn £1,230⁶.

Myfyrwyr sy'n astudio mewn darparwyr yn yr Alban

Bydd myfyrwyr cohort 2012 mewn darparwyr yn yr Alban sy'n cwblhau blwyddyn ar leoliad dramor (naill ai'n astudio neu'n gweithio o fewn cynllun ERASMUS+) yn gorfod talu ffioedd dysgu o hyd at 15% o gap ffioedd uchaf y darparwr (hyd at £1,385). Bydd myfyrwyr cymwys yn gallu derbyn cymorth ffioedd o hyd at y ffi dysgu uchaf a godir sy'n cynnwys benthyciad ffioedd o £710 a grant ffioedd o £675.

Bydd myfyrwyr cohort 2012 mewn darparwyr yn yr Alban sy'n cwblhau blwyddyn o leoliad gwaith rhyngosod neu leoliad astudio neu waith y tu allan i gynllun

⁵ £920 yw 15% o £6,165 wedi'i ddalgrynnu i'r £5 cyflawn agosaf

⁶ £1,230 yw 20% o £6,165 wedi'i ddalgrynnu i'r £5 cyflawn agosaf.

ERASMUS+ yn 2020/21, yn parhau i allu manteisio ar drefniadau cymorth myfyrwyr a oedd yn weithredol yn 2014/15. Y cymorth ffioedd dysgu uchaf fydd ar gael i'r myfyrwyr hyn fydd £4,625. Bydd hyn yn cynnwys benthyciad ffioedd o £2,285 a grant ffioedd o £2,340. Bydd uchafswm y benthyciad ffioedd dysgu y gellir ei hawlio ar gyfer cyrsiau mewn sefydliad preifat yn y sefyllfa hon yn £3,080.

Myfyrwyr mewn darparwyr yng Ngogledd Iwerddon

Bydd myfyrwyr cohort 2012 ar gyrsiau mewn darparwyr yng Ngogledd Iwerddon, ac sy'n cwblhau rhan o flwyddyn dramor ar gyfer lleoliad astudio neu waith (y tu allan i gynllun ERASMUS+, gan fod darparwyr Gogledd Iwerddon yn hepgor ffioedd i fyfyrwyr ERASMUS+) neu flwyddyn o leoliad gwaith rhyngosod yn 2020/21 yn gallu cael yr uchafswm cymorth ffioedd o £4,625. Mae hyn yn cynnwys benthyciad ffioedd o £2,285 a grant ffioedd o £2,340. Bydd uchafswm y benthyciad ffioedd dysgu y gellir ei hawlio ar gyfer cyrsiau mewn sefydliad preifat yn y sefyllfa hon yn £3,080.

B2: Cymorth cynhaliaeth

Mae gan fyfyrwyr cohort 2012 llawn amser hawl i gael cymorth cynhaliaeth drwy gyfrwng grant a benthyciad. Bydd myfyrwyr yn gallu gwneud cais am:

- grant sy'n dibynnu ar brawf modd ar gyfer costau byw, hyd at £5,161;
- benthyciad, gyda 75% ohono ddim yn dibynnu ar asesiad incwm.

Efallai y bydd rhai myfyrwyr yn gymwys am Grant Cymorth Arbennig yn hytrach na'r grant cynhaliaeth. Mae uchafswm y cymorth y mae myfyrwyr sydd ac sydd ddim yn gymwys am Grant Cymorth Arbennig yn wahanol.

Mae cyfanswm y cymorth cynhaliaeth a swm y benthyciad a'r grant yn dibynnu ar ble mae'r myfyriwr yn byw ac astudio, ac incwm yr aelwyd.

Benthyciadau cynhaliaeth

Mae cyfraddau benthyciadau wedi'u nodi yn nhabl 5.

Bydd uchafswm y benthyciad yn cael ei leihau 50c am bob £1 o grant cynhaliaeth a dderbynnir, hyd at uchafswm o £2,580 o ostyngiad.

Benthyciadau cyfraddau is

Mae rhai myfyrwyr yn gymwys am fenthyciad cynhaliaeth is yn unig (a chymorth grant fel y disgrifiwyd uchod) Y rhain yw:

- myfyrwyr ar leoliadau cwrs rhyngosod blwyddyn lawn â thâl lle mae'r cyfnodau o astudiaeth lawn amser yn llai na 10 wythnos i gyd;
- myfyrwyr sy'n gymwys am fwrsariâu'r GIG sy'n dibynnu ar brawf modd yng Nghymru a Lloegr, neu lwfansau Gofal Iechyd yr Alban sy'n dibynnu ar brawf modd (gweler adran F).

Benthyciadau blwyddyn olaf

Mae myfyrwyr ym mlwyddyn olaf eu cwrs yn gymwys am wahanol gyfraddau i flynyddoedd eraill. Mae cyfraddau is ar gyfer myfyrwyr blwyddyn olaf yn cael eu haddasu'n briodol.

Tabl 5: Cyfraddau benthyciad cynhaliaeth, cohort 2012

Cyfraddau uchaf benthyciad blwyddyn lawn	Cyfradd is (£)	Cyfradd lawn (£)
Cartref rhiant	2,777	5,848
Llundain	5,204	10,584
Rhywle arall	3,702	7,555
Tramor	4,428	9,008

Cyfraddau uchaf benthyciad blwyddyn olaf	Cyfradd is (£)	Cyfradd lawn (£)
Cartref rhiant	2,111	5,295
Llundain	3,980	9,638
Rhywle arall	2,885	6,999
Tramor	3,237	7,835

Myfyrwyr na aseswyd eu hincwm

Mae myfyrwyr nad ydynt yn darparu'r wybodaeth sydd ei hangen i gyfrifo incwm yr aelwyd yn gymwys am wahanol gyfraddau o fenthyciad. Mae Tabl 6 yn darparu'r cyfraddau hyn, y cyfraddau 'heb asesu incwm'. Mae Tabl 6 hefyd yn nodi cyfradd y prif fenthyciad a'r benthyciad ychwanegol sy'n gymwys i'r rhai sy'n darparu gwybodaeth i gyfrif incwm aelwyd.

Tabl 6: Cyfraddau benthyciad cynhaliaeth ar gyfer myfyrwyr na aseswyd eu hincwm, cohort 2012

Myfyrwyr llawn amser	Heb asesu incwm* (£)	Wedi asesu incwm† (£)	Cyfradd lawn (£)
Cartref rhiant	4,386	1,462	5,848
Llundain	7,938	2,646	10,584
Rhywle arall	5,666	1,889	7,555
Tramor	6,756	2,252	9,008

Myfyrwyr blwyddyn olaf	Heb asesu incwm* (£)	Wedi asesu incwm† (£)	Cyfradd lawn (£)
Cartref rhiant	3,971	1,324	5,295
Llundain	7,228	2,410	9,638
Rhywle arall	5,249	1,750	6,999
Tramor	5,876	1,959	7,835

* 75% o'r gyfradd lawn, wedi'i dalgrynnu i'r £1 agosaf.

† 25% o'r gyfradd lawn.

Grantiau cynhaliaeth

Swm y grant

Y grant cynhaliaeth uchaf sydd ar gael yw £5,161, waeth ble mae'r myfyriwr yn byw ac yn astudio.

Mae cyfanswm y cymorth cynhaliaeth a swm y benthyciad a'r grant yn dibynnu ar ble mae'r myfyriwr yn byw ac yn astudio, ac incwm yr aelwyd. Mae uchafswm y cymorth cynhaliaeth ar gael i fyfyrwyr ag incwm aelwyd o hyd at £18,370.

- Gall myfyrwyr sy'n byw yng nghartref rhiant dderbyn hyd at £8,429 o gymorth cynhaliaeth. Bydd y rhai ag incwm aelwyd uwch yn derbyn llai.
- Gall myfyrwyr sy'n astudio oddi cartref, yn Llundain, dderbyn hyd at £13,165 o gymorth cynhaliaeth. Bydd y rhai ag incwm aelwyd uwch yn derbyn llai.
- Gall myfyrwyr sy'n astudio oddi cartref, y tu allan i Lundain, dderbyn hyd at £10,136 o gymorth cynhaliaeth. Bydd y rhai ag incwm aelwyd uwch yn derbyn llai.

Bydd swm y benthyciad y mae myfyrwyr yn gymwys iddo yn cael ei leihau 50c am bob £1 o grant y mae ganddynt hawl iddo. Y swm uchaf o grant a ystyrir yw £2,580.

Yn achos incwm rhwng £18,371 a £26,500, bydd grant cynhaliaeth yn cael ei leihau £1 am bob £3.653 cyflawn o incwm sy'n uwch na £18,370. Yn achos incwm rhwng £26,501 a £34,000, bydd y grant yn cael ei leihau £1 am bob £4.180 cyflawn o incwm sy'n uwch na £26,500. Yn achos incwm rhwng £34,001 a £50,020, mae'r grant yn lleihau £1 am bob £14.670 cyflawn o incwm sy'n uwch na £34,000.

Bydd myfyriwr ag incwm o £50,020 yn gymwys am yr isafswm grant o £50. Ni fydd myfyriwr sydd ag incwm o dros £50,020 yn gymwys am unrhyw grant. Pan fo incwm y myfyriwr yn fwy na £50,753, bydd swm y benthyciad y mae ganddo hawl iddo yn lleihau £1 am bob £5 cyflawn o incwm sy'n uwch na £50,753 nes bod 75% o'r benthyciad cynhaliaeth llawn yn weddill.

Mae tabl IT3 yn adran H yn dangos y symiau o grantiau a benthyciadau sydd ar gael ar wahanol lefelau o incwm.

Grant Cymorth Arbennig

Mae rhai myfyrwyr yn gymwys am Grant Cymorth Arbennig yn hytrach na grant cynhaliaeth. Y rhain yw myfyrwyr:

- sydd â phlant dibynnol ond nad oes ganddynt bartner;
- sydd â phlant dibynnol a bod eu partner yn fyfyriwr llawn amser hefyd;
- sy'n gymwys am rai budd-daliadau anabled penodol.

Mae myfyrwyr sy'n gymwys am Grant Cymorth Arbennig yn gymwys am gyfraddau uwch o gymorth benthyciad na'r rhai nad ydynt yn gymwys, sy'n golygu bod eu lefel cymorth cyffredinol yn uwch hefyd.

Y Grant Cymorth Arbennig uchaf sydd ar gael yw £5,161, waeth ble mae'r myfyriwr yn byw ac yn astudio. Mae'r swm uchaf ar gael i bob myfyriwr cymwys sydd ag incwm aelwyd o hyd at £18,370.

Mae cyfanswm y cymorth cynhaliaeth a swm y benthyciad a'r Grant Cymorth Arbennig yn dibynnu ar ble mae'r myfyriwr yn byw ac yn astudio, ac incwm yr aelwyd fel a ganlyn.

- Gall myfyrwyr sy'n byw yng nghartref eu rhieni dderbyn hyd at £11,009 o gymorth cynhaliaeth. Bydd y rhai ag incwm aelwyd uwch yn derbyn llai.

- Gall myfyrwyr sy'n astudio oddi cartref, yn Llundain, dderbyn hyd at £15,745 o gymorth cynhaliaeth. Bydd y rhai ag incwm aelwyd uwch yn derbyn llai.
- Gall myfyrwyr sy'n astudio oddi cartref, y tu allan i Lundain, dderbyn hyd at £12,716 o gymorth cynhaliaeth. Bydd y rhai ag incwm aelwyd uwch yn derbyn llai.

Yn achos incwm rhwng £18,371 a £26,500, bydd y grant yn cael ei leihau £1 am bob £3.653 cyflawn o incwm sy'n uwch na £18,370. Yn achos incwm rhwng £26,501 a £34,000, bydd y grant yn cael ei leihau £1 am bob £4.180 cyflawn o incwm sy'n uwch na £26,500. Yn achos incwm rhwng £34,001 a £50,020, mae'r grant yn lleihau £1 am bob £14.670 cyflawn o incwm sy'n uwch na £34,000.

Bydd myfyriwr ag incwm o £50,020 yn gymwys am yr isafswm grant o £50. Ni fydd myfyriwr sydd ag incwm o dros £50,020 yn gymwys am unrhyw grant. Pan fo incwm y myfyriwr yn fwy na £50,753, bydd swm y benthyciad y mae ganddo hawl iddo yn lleihau £1 am bob £5 cyflawn o incwm sy'n uwch na £50,753 nes bod 75% o'r benthyciad cynhaliaeth llawn yn weddill.

Mae tabl IT4 yn adran H yn dangos y symiau o grantiau a benthyciadau sydd ar gael ar wahanol lefelau o incwm.

Myfyrwyr cohort 2012 ar gyrsiau AGA

Bydd y cymorth sydd ar gael i fyfyrwyr cohort 2012 ar gyrsiau AGA yn dibynnu ar a yw'r cwrs yn un llawn amser neu'n rhan-amser. Mae'r grant cynhaliaeth a'r Grant Cymorth Arbennig yn dibynnu ar brawf modd llawn i bob myfyriwr sy'n dechrau astudio'n llawn amser ar neu ar ôl 1 Medi 2010.

Mae myfyrwyr cohort 2012 sydd ar gwrs AGA rhan-amser, yn cynnwys y ddarpariaeth hyblyg a ddarperir gan y Brifysgol Agored yng Nghymru, yn gymwys am y pecyn cymorth myfyrwyr rhan-amser safonol a nodwyd yn adran C.

Cyfraniadau aelwyd

Bydd cyfraniadau'n cael eu cyfrif fel a ganlyn:

- Incwm aelwyd o £50,753 neu lai: dim cyfraniad.
- Incwm aelwyd o rhwng £50,753 a £81,793: cyfraniad o £1 am bob £5 ychwanegol o incwm aelwyd.
- Incwm aelwyd o dros £81,793: cyfraniad o £6,208.

Y cyfraniad uchaf posibl yw £6,208.

Mae tabl IT5 yn adran H yn dangos symiau cyfraniadau aelwyd.

Didyniad plentyn dibynnol

Efallai y bydd swm o incwm yn cael ei ddiystyru wrth gyfrif incwm yr aelwyd i'w ystyried ar gyfer pennu lefel y grant cynhaliaeth. Mae hyn yn berthnasol pan fo'r aelwyd yn cynnwys plentyn dibynnol heblaw'r myfyriwr.

Gellir diystyru £1,130 wrth gyfrif incwm aelwyd myfyrwyr cohort 2012 llawn amser.

Adran C

Cymorth ffioedd a chynhaliaeth i fyfyrwyr rhan-amser

C1: Benthyciadau ffioedd ar ôl 1 Medi 2014

Mae'r benthyciadau ffioedd uchaf ar gyfer cyrsiau a ddechreuodd ar neu ar ôl 1 Medi 2014 wedi'u nodi yn nhabl 7.

Tabl 7: Cymorth ffioedd ar gyfer astudio'n rhan-amser, ar ôl 1 Medi 2014

	£
Myfyrwyr sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru	
Mewn darparwyr cyffredin	
Darparwyr yng Nghymru	2,625
Y Brifysgol Agored	2,625
Darparwyr eraill yn y DU	6,935
Mewn sefydliadau preifat	
Sefydliadau yng Nghymru	2,625
Sefydliadau eraill yn y DU	4,625
Myfyrwyr yr UE ar gyrsiau mewn darparwyr yng Nghymru	2,625

C2: Grantiau ffioedd cyn 1 Medi 2014

Mae grantiau ffioedd i'r rhai a ddechreuodd gwrs cyn Medi 2014 yn dibynnu ar ddwysedd yr astudiaeth ac incwm aelwyd, fel a ganlyn.

Tabl 8: Cymorth ffioedd ar gyfer astudio'n rhan-amser, cyn 2014

Incwm aelwyd	Dwysedd astudio		
	Hyd at 60% (£)	60–74% (£)	75% a mwy (£)
Llai na £16,865	690	820	1,025
£16,865	640	770	975
£16,865–£25,434	Gweler nodyn 1.		
£25,435	50	50	50
Mwy na £25,435	0	0	0

Nodyn 1.

Gydag incwm aelwyd o £16,865 i £25,434

- astudio ar ddwysedd o hyd at 60% – £640 gyda £1 yn llai am bob £14.52 o incwm dros £16,865
- astudio ar ddwysedd o 60–74% – £770 gyda £1 yn llai am bob £11.90 o incwm dros £16,865
- astudio ar ddwysedd o 75% neu fwy – £975 gyda £1 yn llai am bob £9.26 o incwm dros £16,865

Didyniad incwm

Mae didyniadau incwm yn berthnasol i fyfyrwyr sydd â phartneriaid a phlant dibynnol:

- mae £2,000 o incwm aelwyd yn cael ei ddiystyru ar gyfer myfyriwr sydd â phartner;
- mae £2,000 o incwm aelwyd yn cael ei ddiystyru ar gyfer y plentyn dibynnol cyntaf, a £1,000 ar gyfer pob plentyn wedi hynny.

C3. Cymorth cynhaliaeth ar gyfer myfyrwyr 2018

Mae gan fyfyrwyr cymwys sy'n dechrau eu cyrsiau ar neu ar ôl 1 Awst 2018 hawl i gael cymorth cynhaliaeth drwy gyfrwng grant sylfaenol, grant cynhaliaeth a benthyciad cynhaliaeth. Mae gan bob myfyriwr cymwys hawl i gael grant sylfaenol nad yw'n dibynnu ar brawf modd, a bydd y swm yn dibynnu ar ddwysedd yr astudiaeth. Mae hyn yn seiliedig ar yr isafswm o £1,000 sydd ar gael i fyfyrwyr llawn amser, felly byddai myfyriwr rhan-amser sy'n astudio ar ddwysedd o 50 y cant yn derbyn grant sylfaenol o £500.

Mae swm y grant a'r benthyciad cynhaliaeth yn dibynnu ar ddwysedd yr astudio ac incwm yr aelwyd. Yn 2020/21, mae'r cymorth ar gyfer myfyrwyr rhan-amser yn seiliedig ar swm cyfwerth ag amser llawn o £7,245, wedi'i dalu pro-rata ar sail dwysedd yr astudio. Fodd bynnag, i gael ei ddosbarthu fel cwrs rhan-amser, ystyrir mai uchafswm yr oriau astudio yw 75 y cant o'r rhai ar gwrs llawn amser (h.y. dwysedd o 75 y cant). Felly, y swm uchaf o fenthyciad a grant cyfunol sydd ar gael i fyfyrwyr rhan-amser yw 75 y cant o £7,245, sef £5,433.75.

Mae swm y grant yn seiliedig ar swm cyfwerth ag amser llawn o £6,000, wedi'i leihau £1 am bob £6.84 ychwanegol o incwm dros £25,000, ac wedi'i dalu pro-rata ar sail dwysedd yr astudio. Mae'r grant uchaf posibl, felly, yn £4,500, yn seiliedig ar

ddwysedd astudio o 75%. Fel yn achos myfyrwyr llawn amser, gall benthyciad wneud iawn am y swm a gollir fel hyn.

Yn achos myfyrwyr sy'n gymwys am Daliad Cymorth Arbennig, bydd unrhyw grant cynhaliaeth y byddant yn ei dderbyn yn cael ei ddynodi felly.

Mae tabl IT6 yn adran H yn dangos symiau'r grantiau a benthyciadau sydd ar gael ar wahanol lefelau o incwm.

C4. Cymorth cynhaliaeth ar gyfer myfyrwyr 2014

Mae myfyrwyr rhan-amser ac sy'n dysgu o bell yn rhan-amser (astudio ar ddwysedd o 50% neu fwy), a ddechreuodd eu cyrsiau ar ôl 1 Medi 2014 a chyn 1 Awst 2018, yn gymwys am grant cynhaliaeth o hyd at £1,155 ar gyfer llyfrau, teithio a gwariant arall sy'n gysylltiedig â'u cwrs ('grant y cwrs'). Mae'r grant hwn yn cael ei asesu ar sail incwm, gyda swm y grant yn lleihau £1 am bob £1.886 o incwm cyfrifiadwy sy'n uwch na £26,095.

Mae myfyrwyr sy'n dysgu o bell yn rhan-amser a ddechreuodd eu cwrs cyn 1 Medi 2012 yn gymwys am y grant hwn. (Mae myfyrwyr sy'n dysgu o bell yn llawn amser a ddechreuodd eu cwrs ar neu ar ôl 1 Medi 2012 yn gymwys am y pecyn cymorth ffioedd llawn amser (gweler adran A neu B).)

Tabl 9: Cymorth cynhaliaeth ar gyfer astudio'n rhan-amser, myfyrwyr 2014

Incwm	Hawl i grant
£26,095 ac is	£1,155
£26,096 i £28,179	£1,155 gyda £1 yn llai am bob £1.886 o incwm dros £26,095
£28,180	£50
£28,181 a throsodd	Dim cymorth

Didyniad incwm

Mae didyniadau incwm yn berthnasol i fyfyrwyr sydd â phartneriaid a phlant dibynnol:

- mae £2,000 o incwm aelwyd yn cael ei ddiystyru ar gyfer myfyriwr sydd â phartner;
- mae £2,000 o incwm aelwyd yn cael ei ddiystyru ar gyfer y plentyn dibynnol cyntaf, a £1,000 ar gyfer pob plentyn wedi hynny.

C5. Cyrsiâu AGA rhan-amser

Mae myfyrwyr cymwys a ddechreuodd gwrs AGA rhan-amser ar neu ar ôl 1 Medi 2014 a chyn 1 Medi 2018 yn gymwys am y cymorth ffioedd a ddisgrifiwyd yn adran C1 a'r cymorth cynhaliaeth a nodwyd yn adran C4.

Mae'r rhai a ddechreuodd gwrs AGA rhan-amser ar neu ar ôl 1 Medi 2018 yn gymwys am y cymorth ffioedd a ddisgrifiwyd yn adran C1 a'r cymorth cynhaliaeth a nodwyd yn adran C3.

Adran D

Cymorth ychwanegol i fyfyrwyr llawn amser

Mae'r cymorth hwn ar gael i bob myfyriwr llawn amser a ddechreuodd eu cwrs ar ôl 1 Medi 2012.

D1: Benthyciadau cynhaliath uwch ar gyfer blynyddoedd estynedig

Mae benthyciad cynhaliath ychwanegol ar gael i fyfyrwyr llawn amser ar gyfer astudio mewn blynyddoedd academaidd sy'n para mwy na 30 wythnos a 3 diwrnod.

Tabl 10: Benthyciad cynhaliath ychwanegol mewn blynyddoedd estynedig

	Benthyciad ychwanegol yr wythnos (£)
Cartref rhiant	86
Llundain	167
Rhywle arall	131
Tramor*	182

* Mae'r ychwanegiad tramor ond yn berthnasol i fyfyrwyr cohort 2012. Mae myfyrwyr cohort 2018 sy'n astudio dramor yn gymwys am y gyfradd 'astudio'n rhywle arall'.

Nid yw myfyrwyr sy'n gymwys am gyfradd is y benthyciad yn gymwys am swm ychwanegol.

D2: Lwfans/Grant Myfyriwr Anabl

Mae'r taliadau hyn yn helpu myfyrwyr ag anabledau. Nid ydynt yn dibynnu ar brawf modd.

Tabl 11: Lwfans/Grant Myfyriwr Anabl

	Uchafswm (£)
Cynorthwydd personol anfeddygol	23,258
Eitemau cyfarpar arbenigol mawr	5,849
Gwariant arall cysylltiedig ag anabled	1,954

Mae'r lwfans cyfarpar arbenigol ar gyfer hyd y cwrs cyfan. Mae'r ddau lwfans arall yn symiau blynyddol.

Mae myfyrwyr sy'n mynychu blwyddyn academiaidd o gwrs AGA lle mae'r cyfnodau o bresenoldeb llawn amser, yn cynnwys ymarfer dysgu, yn gyfanswm sy'n llai na 6 wythnos yn gymwys am Lwfans Myfyriwr Anabl ar y cyfraddau rhan-amser (adran E).

D3: Grantiau i Ddibynyddion

Grant Oedolyn Dibynnol

Gellir talu Grant Oedolyn Dibynnol i fyfyrwr sydd â phartner dibynnol neu oedolyn arall dibynnol. Lle bo'n gymwys, y grant uchaf yn 2020/21 mewn perthynas â phriod fydd £3,094. Pan nad oes gan y myfyriwr bartner, gall y myfyriwr fod yn gymwys am y grant hwn o ran un oedolyn dibynnol nad yw ei incwm net yn fwy na £3,923.

Grant Gofal Plant

Mae Grant Gofal Plant yn cael ei ddarparu i helpu myfyriwr cymwys gyda chostau gofal plant yn ystod eu cwrs.

Bydd swm y grant i'w dalu yn seiliedig ar 85% o'r costau gofal plant gwirioneddol, yn amodol ar uchafswm grant o £174.22 yr wythnos am un plentyn, neu £298.69 yr wythnos am ddau blentyn neu fwy.

Pan nad oes darparwr gofal plant wedi'i nodi, bydd swm y grant gofal plant i'w dalu yn 2020/21 yn seiliedig ar 85% o'r costau gofal plant gwirioneddol, yn amodol ar uchafswm grant o £134.70 yr wythnos. Bydd y taliad cyfradd is hwn yn cael ei wneud nes bod manylion y darparwr gofal plant wedi'u cyflwyno, ac ond yn cael ei dalu am un chwarter academiaidd (tymor fel arfer).

Lwfans/Grant Dysgu Rhieni

Mae Lwfans/Grant Dysgu Rhieni ar gael i fyfyrwyr sydd â phlant.

Uchafswm y Lwfans Dysgu Rhieni i'w dalu yn 2020/21 fydd £1,766 gyda'r isafswm yn £50.

Diystyru incwm dibynyddion

Mae swm o incwm yn cael ei ddiystyru wrth gyfrifo hawl i Grantiau ar gyfer Dibynnyddion. Mae ffigurau diystyru gwahanol yn bodoli ar gyfer cohortau 2012 a 2018.

Tabl 12: Diystyru incwm ar gyfer Grantiau i Ddibynnyddion

	Diystyru (£)	
	Cohort 2012	Cohort 2018
Dim plentyn dibynnol	1,159	6,159
Ddim yn unig riant, un plentyn dibynnol	3,473	8,473
Ddim yn unig riant, mwy nag un plentyn dibynnol	4,632	9,632
Unig riant, un plentyn dibynnol	4,632	9,632
Unig riant, mwy nag un plentyn dibynnol	5,797	10,797

D4: Grant Teithio

Mae grant teithio ar gael i fyfyrwyr ar gyrsiau meddygaeth neu ddeintyddiaeth ac i fyfyrwyr sy'n astudio neu weithio dramor fel rhan o'u cwrs o dan rai amgylchiadau. Caiff y costau gwirioneddol eu had-dalu, ar ôl tynnu'r swm sy'n cael ei ddiystyru.

Y swm i'w ddiystyru mewn unrhyw asesiad o hawl fydd £303 i bob myfyriwr, ac eithrio myfyriwr cohort 2018 na asesir eu hincwm neu sydd ag incwm aelwyd o dros £59,200 - yn yr achos hwn mae'r £1,000 cyntaf yn cael ei ddiystyru. Mae hyn yn golygu bod rhaid i fyfyrwyr ariannu eu hunain y £303 neu'r £1,000 cyntaf o'u costau teithio fel y bo'n berthnasol cyn y telir unrhyw grant teithio.

D5: Lwfans/Grant Myfyriwr Anabl i fyfyrwyr ôl-raddedig

Gall myfyriwr ôl-raddedig fod yn gymwys am grant i helpu gyda gwariant ychwanegol mewn perthynas â chostau byw y mae'n rhaid i'r myfyriwr eu talu. Uchafswm y grant ar gyfer myfyriwr ôl-raddedig anabl yw £20,580.

Adran E

Cymorth ychwanegol i fyfyrwyr rhan-amser

E1: Lwfans/Grant Myfyriwr Anabl

Mae'r taliadau hyn yn helpu myfyrwyr ag anableddau. Nid ydynt yn dibynnu ar brawf modd.

Tabl 13: Lwfans/Grant Myfyriwr Anabl, astudio'n rhan-amser

	Uchafswm (£)
Cynorthwydd personol anfeddygol	17,443
Eitemau cyfarpar arbenigol mawr	5,849
Gwariant arall cysylltiedig ag anabledd	1,465

Mae'r lwfans cyfarpar arbenigol ar gyfer hyd y cwrs cyfan. Mae'r ddau lwfans arall yn symiau blynyddol.

E2: Grantiau i Ddibynnyddion

Grant Oedolyn Dibynnol

Gellir talu Grant Oedolyn Dibynnol i fyfyrwr sydd â phartner dibynnol neu oedolyn arall dibynnol. Y grant uchaf yn 2020/21 mewn perthynas ag oedolyn dibynnol fydd £3,094 (yn amodol ar gyfrifiadau dwysedd astudio).

Grant Gofal Plant

Mae Grant Gofal Plant yn cael ei ddarparu i helpu myfyriwr cymwys gyda chostau gofal plant yn ystod eu cwrs.

Bydd swm y grant i'w dalu yn seiliedig ar 85% o'r costau gofal plant gwirioneddol, yn amodol ar uchafswm grant o £174.22 yr wythnos am un plentyn, neu £298.69 yr wythnos am ddau blentyn neu fwy (yn amodol ar gyfrifiadau dwysedd astudio ar gyfer cyrsiau rhan-amser).

Pan nad oes darparwr gofal plant wedi'i nodi, bydd swm y grant gofal plant i'w dalu yn 2020/21 yn seiliedig ar 85% o'r costau gofal plant gwirioneddol, yn amodol ar uchafswm grant o £134.70 yr wythnos (yn amodol ar gyfrifiadau dwysedd astudio).

Bydd y taliad cyfradd is hwn yn cael ei wneud nes bod manylion y darparwr gofal plant wedi'u cyflwyno, ac ond yn cael ei dalu am un chwarter academaidd (tymor fel arfer).

Lwfans/Grant Dysgu Rhieni

Mae Lwfans/Grant Dysgu Rhieni ar gael i fyfyrwyr sydd â phlant.

Yr uchafswm i'w dalu yn 2020/21 fydd £1,766 (yn amodol ar gyfrifiadau dwysedd astudio ar gyfer myfyrwyr sy'n dilyn cyrsiau rhan-amser) gyda'r isafswm yn £50 yn dibynnu ar brawf modd.

Adran F

Cymorth i fyfyrwyr ar gyrsiau'r GIG

Gweler <http://www.nwssp.wales.nhs.uk/student-awards> am wybodaeth gynhwysfawr.

F1: Meddygaeth a deintyddiaeth

Cyrsiau pedair blynedd

Mae cymorth ffioedd a chynhaliaeth ar gael i'r rhai ar gyrsiau mynediad carlam i raddedigion, sy'n gyrsiau pedair blynedd, fel y nodwyd yn nhablau 14 (cymorth ffioedd) a 15 (cymorth cynhaliaeth). Mae hyn yn berthnasol i fyfyrwyr ar gyrsiau sy'n dechrau ar neu ar ôl blwyddyn academaidd 2012/13.

Mae cymorth ffioedd a chynhaliaeth yn cael ei ddarparu gan y GIG a Llywodraeth Cymru (drwy Cyllid Myfyrwyr Cymru?). Darperir cymorth y GIG ar ffurf bwrsariau nad oes rhaid eu had-dalu a chymorth Cyllid Myfyrwyr Cymru ar ffurf benthyciadau i'w had-dalu.

Mae cymorth ffioedd y flwyddyn gyntaf yn cynnwys benthyciad o hyd at £5,785. Mae'n rhaid i fyfyrwyr ariannu gweddill y ffi dysgu eu hunain. Yn y blynyddoedd dilynol, telir bwrsari'r GIG ac mae benthyciad ar gael i dalu gweddill y ffioedd dysgu.

Tabl 14: Cymorth ffioedd ar gyfer meddygaeth a deintyddiaeth (pedair blynedd)

Blwyddyn	Bwrsari ffioedd dysgu'r GIG	Benthyciad ffioedd dysgu
1	Na	Hyd at £5,785
2	Hyd at £3,465	Hyd at £5,785
3	Hyd at £3,465	Hyd at £5,785
4	Hyd at £3,465	Hyd at £5,785

Mae cymorth cynhaliaeth yn cynnwys cymysgedd o fenthyciad i'w ad-dalu gan Cyllid Myfyrwyr Cymru a bwrsariau nad oes rhaid eu had-dalu gan y GIG.

Tabl 15: Cymorth cynhaliaeth ar gyfer meddygaeth a deintyddiaeth (pedair blynedd)

Blwyddyn	Benthyciad†	Bwrsari'r GIG	
		Prawf modd	Dim prawf modd (£1,000)
1	Cyfradd lawn	Na	Na
2	Cyfradd is	le	le
3	Cyfradd is	le	le
4	Cyfradd is	le	le

† Gweler tabl 1.

Cyrsiau pum mlynedd

Mae cymorth ffioedd a chynhaliaeth ar gael i'r rhai ar gyrsiau pum mlynedd fel y nodwyd.

Mae cymorth ffioedd a chynhaliaeth yn cael ei ddarparu gan y GIG a Llywodraeth Cymru (drwy Cyllid Myfyrwyr Cymru). Darperir cymorth y GIG ar ffurf bwrsariau nad oes rhaid eu had-dalu a chymorth Llywodraeth Cymru ar ffurf benthyciadau i'w had-dalu.

Darperir cymorth ffioedd o'r flwyddyn gyntaf i'r bedwaredd ar ffurf benthyciad (hyd at yr uchafswm statudol). Bwrsari'r GIG nad oes angen ei ad-dalu yw'r cymorth ffioedd yn y bumed flwyddyn.

Tabl 16: Cymorth ffioedd ar gyfer meddygaeth a deintyddiaeth (pum mlynedd)

Blwyddyn	Bwrsari'r GIG	Benthyciad†
1	Na	le
2	Na	le
3	Na	le
4	Na	le
5	le	Na

† Gweler tabl 1.

Os oes gan fyfyrwr radd anrhydedd o sefydliad yn y DU ni fydd yn gymwys am gymorth ffioedd ar gyfer cwrs pum mlynedd.

Darperir cymorth cynhaliath o dan drefniant tebyg.

Tabl 17: Cymorth cynhaliath ar gyfer meddygaeth a deintyddiaeth (pum mlynedd)

Blwyddyn	Benthyciad†	Bwrsari'r GIG	
		Prawf modd	Dim prawf modd (£1,000)
1	Cyfradd lawn	Na	Na
2	Cyfradd lawn	Na	Na
3	Cyfradd lawn	Na	Na
4	Cyfradd lawn	Na	Na
5	Cyfradd is	le	le

† Gweler tabl 1.

F2: Nyrsys a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill

Mae gweithwyr iechyd proffesiynol eraill yn cynnwys:

- Ceiropryddion (yn cynnwys Podiatryddion)
- Dietegwyr
- Radiograffwyr
- Therapyddion Lleferydd ac Iaith
- Hylenwyr deintyddol
- Gwyddonwyr gofal iechyd
- Parafeddygon
- Therapyddion deintyddol
- Therapyddion galwedigaethol
- Ffisiotherapyddion

Astudio yng Nghymru

Nid oes rhaid i'r rhai sy'n preswyl fel arfer yng Nghymru ac sy'n astudio yng Nghymru dalu ffioedd. Mae'r GIG yn eu talu.

O 2018/19, gall myfyrwyr cymwys sy'n astudio yng Nghymru wneud cais am fwrsari'r GIG. Mae'n rhaid i unigolion ymrwmo i weithio yng Nghymru am ddwy flynedd ar ôl cymhwyso. Nid yw myfyrwyr cymwys nad ydynt yn ymrwmo i'r ddwy flynedd yn gymwys am y bwrsari a gallant wneud cais am y pecyn cymorth myfyrwyr sydd ar gael i fyfyrwyr llawn amser neu ran-amser (gweler adran A neu C).

Mae'r cymorth ar ffurf bwrsari nad oes rhaid ei ad-dalu gan y GIG. Gall myfyrwyr fod yn gymwys am fenthyciad sy'n rhaid ei ad-dalu gan Lywodraeth Cymru (drwy Cyllid Myfyrwyr Cymru) hefyd. Mae'r benthyciad hwn ar gyfradd is, fel y nodir yn nhabl 18.

Tabl 18: Benthyciadau cyfradd is i nyrsys a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill sy'n astudio yng Nghymru

Trefniant byw	Cyfradd is (£)
Cartref rhiant	3,665
Llundain	5,630
Rhywle arall	4,405

Gall myfyrwyr fod yn gymwys am grantiau a lwfansau eraill hefyd.

Adran G

Cymorth i fyfyrwyr ar gyrsiau ôl-raddedig

G1: Cwrs meistr

O 1 Awst 2020, gall myfyrwyr sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru, a'r rhai o'r UE sy'n astudio mewn darparwr yng Nghymru, fod â hawl i dderbyn cyfuniad o fenthyciad a grant, fel cyfraniad at gostau, os ydynt yn astudio cwrs gradd meistr ôl-raddedig dynodedig. Nid yw cyfanswm y cymorth sydd ar gael yn dibynnu ar brawf modd ac mae'n cael ei dalu'n uniongyrchol i'r myfyriwr. Mae'r grant yn dibynnu ar brawf modd, gyda swm priodol o fenthyciad ar gael hyd at uchafswm lefel y cymorth sydd ar gael.

Mae'r cymorth sydd ar gael fel a ganlyn:

- Mae grant sylfaenol nad yw'n dibynnu ar brawf modd o £1,000 ar gael i bob myfyriwr cymwys;
- Mae uchafswm grant sy'n dibynnu ar brawf modd o £6,885 (yn cynnwys y grant sylfaenol o £1,000) ar gael i'r rhai ag incwm aelwyd o hyd at £18,370 y flwyddyn. Am bob £6.937 o incwm aelwyd y flwyddyn uwchben y trothwy hwn, bydd £1 o grant yn cael ei gollu nes cyrraedd yr isafswm o £1,000;
- Yn ogystal â'r grant, mae benthyciad nad yw'n dibynnu ar brawf modd ar gael i ddarparu cyfanswm cymorth (grant a benthyciad) o hyd at £17,489. Mae swm y benthyciad sydd ar gael yn gyfwerth â chyfanswm y cymorth ar ôl tynnu cyfanswm y grant y mae myfyriwr yn gallu ei gael.

Gall cyrsiau fod yn rhai llawn amser neu'n rhan-amser a rhwng un a tair blynedd o hyd. Mae taliadau'n cael eu gwneud mewn cyfrannau ar draws nifer y blynyddoedd yn y cwrs gradd meistr ôl-raddedig dynodedig.

Bydd y trefniadau cyfredol yn parhau i fyfyrwyr ôl-raddedig parhaus a ddechreuodd eu cyrsiau ym mlwyddyn academaidd 2017/18, 2018/19 neu 2019/20.

Mae tabl IT7 yn adran H yn dangos symiau'r grantiau a benthyciadau sydd ar gael ar wahanol lefelau o incwm.

G2: Doethurol

Mae cymorth ar gael i'r rhai sy'n preswyl fel arfer yng Nghymru ac sy'n astudio yn y DU, a'r rhai o'r UE sy'n astudio mewn darparwr yng Nghymru. Gall myfyrwyr cymwys fenthyg hyd at uchafswm o £26,445, fel cyfraniad at gostau, dros gyfnod y rhaglen ddoethurol. Gall cyrsiau fod yn rhai llawn amser neu'n rhan-amser a rhwng tair ac wyth mlynedd o hyd. Mae taliadau'n cael eu gwneud mewn cyfrannau ar draws nifer y blynyddoedd yn y rhaglen ddoethurol.

Nid yw'r rhai sy'n derbyn cyllid ysgoloriaeth gan unrhyw un o saith Cyngor Ymchwil y DU (boed yn llawn neu ffioedd yn unig) yn gymwys i dderbyn benthygiad. Nid yw'r rhai sy'n derbyn mathau uniongyrchol eraill o gymorth y Llywodraeth ar gyfer costau cynhaliaeth a ffioedd, yn cynnwys unrhyw gyfraniadau cyflog neu ffioedd a ddarperir gan y GIG at ddibenion astudiaeth ddoethurol, yn gymwys.

Mae cyrsiau sy'n dechrau o flwyddyn academaidd 2018/19 neu'n ddiweddarach (h.y. ar neu ar ôl 1 Awst 2018) ond cyn 1 Awst 2020 yn gymwys am gymorth ar y cyfraddau cyfredol.

Adran H

Tablau eglurhaol

Tabl IT1: Hawl i grant a benthyciad cynhaliath yn ôl lefel incwm, cohort 2018 (£oedd)

Incwm	Grant	Benthyciad	Cyfanswm
<i>Cartref rhiant</i>			
18,370	6,885	1,450	8,335
20,000	6,651	1,684	8,335
25,000	5,930	2,405	8,335
30,000	5,209	3,126	8,335
35,000	4,488	3,847	8,335
40,000	3,767	4,568	8,335
45,000	3,047	5,288	8,335
50,000	2,326	6,009	8,335
55,000	1,605	6,730	8,335
59,200	1,000	7,335	8,335
<i>Llundain</i>			
18,370	10,124	2,136	12,260
20,000	9,760	2,500	12,260
25,000	8,643	3,617	12,260
30,000	7,526	4,734	12,260
35,000	6,408	5,852	12,260
40,000	5,291	6,969	12,260
45,000	4,174	8,086	12,260
50,000	3,056	9,204	12,260
55,000	1,939	10,321	12,260
59,200	1,000	11,260	12,260
<i>Rhywle arall</i>			
18,370	8,100	1,710	9,810
20,000	7,817	1,993	9,810
25,000	6,947	2,863	9,810
30,000	6,078	3,732	9,810
35,000	5,208	4,602	9,810
40,000	4,339	5,471	9,810
45,000	3,469	6,341	9,810
50,000	2,600	7,210	9,810
55,000	1,730	8,080	9,810
59,200	1,000	8,810	9,810

Tabl IT2: Hawl i grant a benthyciad cynhaliath i'r rhai sy'n gymwys am Daliad Cymorth Arbennig yn ôl lefel incwm, cohort 2018 (£oedd)

Incwm	Grant	Benthyciad	Cyfanswm
<i>Cartref rhiant</i>			
18,370	6,885	3,665	10,550
20,000	6,651	3,665	10,316
25,000	5,930	3,665	9,595
30,000	5,209	3,665	8,874
35,000	4,488	3,847	8,335
40,000	3,767	4,568	8,335
45,000	3,047	5,288	8,335
50,000	2,326	6,009	8,335
55,000	1,605	6,730	8,335
59,200	1,000	7,335	8,335
<i>Llundain</i>			
18,370	10,124	5,630	15,754
20,000	9,760	5,630	15,390
25,000	8,643	5,630	14,273
30,000	7,526	5,630	13,156
35,000	6,408	5,852	12,260
40,000	5,291	6,969	12,260
45,000	4,174	8,086	12,260
50,000	3,056	9,204	12,260
55,000	1,939	10,321	12,260
59,200	1,000	11,260	12,260
<i>Rhywle arall</i>			
18,370	8,100	4,405	12,505
20,000	7,817	4,405	12,222
25,000	6,947	4,405	11,352
30,000	6,078	4,405	10,483
35,000	5,208	4,602	9,810
40,000	4,339	5,471	9,810
45,000	3,469	6,341	9,810
50,000	2,600	7,210	9,810
55,000	1,730	8,080	9,810
59,200	1,000	8,810	9,810

Tabl IT3: Hawl i grant a benthyciad cynhaliath yn ôl lefel incwm, cohort 2012 (£oedd)

Incwm	Cyfraniad	Grant	Benthyciad	Cyfanswm
<i>Cartref rhiant</i>				Uchafswm £5,848*
18,370	0	5,161	3,268	8,429
20,000	0	4,715	3,491	8,206
25,000	0	3,347	4,175	7,522
26,500	0	2,936	4,380	7,316
30,000	0	2,099	4,799	6,898
34,000	0	1,142	5,277	6,419
40,000	0	734	5,481	6,215
45,000	0	393	5,652	6,045
50,020	0	50	5,823	5,873
50,753	0	0	5,848	5,848
55,000	849	0	4,999	4,999
58,065	1,462	0	4,386	4,386
<i>Llundain</i>				Uchafswm £10,584*
18,370	0	5,161	8,004	13,165
20,000	0	4,715	8,227	12,942
25,000	0	3,347	8,911	12,258
26,500	0	2,936	9,116	12,052
30,000	0	2,099	9,535	11,634
34,000	0	1,142	10,013	11,155
40,000	0	734	10,217	10,951
45,000	0	393	10,388	10,781
50,020	0	50	10,559	10,609
50,753	0	0	10,584	10,584
55,000	849	0	9,735	9,735
63,985	2,646	0	7,938	7,938
<i>Rhywle arall</i>				Uchafswm £7,555*
18,370	0	5,161	4,975	10,136
20,000	0	4,715	5,198	9,913
25,000	0	3,347	5,882	9,229
26,500	0	2,936	6,087	9,023
30,000	0	2,099	6,506	8,605
34,000	0	1,142	6,984	8,126
40,000	0	734	7,188	7,922
45,000	0	393	7,359	7,752
50,020	0	50	7,530	7,580
50,753	0	0	7,555	7,555
55,000	849	0	6,706	6,706
60,199	1,889	0	5,666	5,666

* Bydd swm y benthyciad y mae myfyrwyr yn gymwys i'w gael lle ynihau 50c am bob £1 o grant y mae ganddynt hawl iddo, hyd at uchafswm o £2,580.

Tabl IT4: Hawl i grant cymorth arbennig a benthyciad yn ôl lefel incwm, cohort 2012 (£oedd)

Incwm	Cyfraniad	Grant	Benthyciad	Cyfanswm
<i>Cartref rhiant</i>				Uchafswm £5,848*
18,370	0	5,161	5,848	11,009
20,000	0	4,715	5,848	10,563
25,000	0	3,347	5,848	9,195
26,500	0	2,936	5,848	8,784
30,000	0	2,099	5,848	7,947
34,000	0	1,142	5,848	6,990
40,000	0	734	5,848	6,582
45,000	0	393	5,848	6,241
50,020	0	50	5,848	5,898
50,753	0	0	5,848	5,848
55,000	849	0	4,999	4,999
58,065	1,462	0	4,386	4,386
<i>Llundain</i>				Uchafswm £10,584*
18,370	0	5,161	10,584	15,745
20,000	0	4,715	10,584	15,299
25,000	0	3,347	10,584	13,931
26,500	0	2,936	10,584	13,520
30,000	0	2,099	10,584	12,683
34,000	0	1,142	10,584	11,726
40,000	0	734	10,584	11,318
45,000	0	393	10,584	10,977
50,020	0	50	10,584	10,634
50,753	0	0	10,584	10,584
55,000	849	0	9,735	9,735
63,985	2,646	0	7,938	7,938
<i>Rhywle arall</i>				Uchafswm £7,555*
18,370	0	5,161	7,555	12,716
20,000	0	4,715	7,555	12,270
25,000	0	3,347	7,555	10,902
26,500	0	2,936	7,555	10,491
30,000	0	2,099	7,555	9,654
34,000	0	1,142	7,555	8,697
40,000	0	734	7,555	8,289
45,000	0	393	7,555	7,948
50,020	0	50	7,555	7,605
50,753	0	0	7,555	7,555
55,000	849	0	6,706	6,706
60,199	1,889	0	5,666	5,666

Tabl IT5: Asesiad o gyfraniad aelwyd yn ôl lefel incwm, cohort 2012 (£oedd)

Incwm	Cyfraniad	Incwm	Cyfraniad	Incwm	Cyfraniad
50,753	0	61,000	2,049	72,000	4,249
51,000	49	62,000	2,249	73,000	4,449
52,000	249	63,000	2,449	74,000	4,649
53,000	449	64,000	2,649	75,000	4,849
54,000	649	65,000	2,849	76,000	5,049
55,000	849	66,000	3,049	77,000	5,249
56,000	1,049	67,000	3,249	78,000	5,449
57,000	1,249	68,000	3,449	79,000	5,649
58,000	1,449	69,000	3,649	80,000	5,849
59,000	1,649	70,000	3,849	81,000	6,049
60,000	1,849	71,000	4,049	81,793	6,208

Tabl IT6: Hawl myfyrwyr rhan-amser i grant a benthyciad yn ôl lefel incwm a dwysedd astudio, cohort 2018 (£oedd)

Incwm	Grant	Benthyciad	Cyfanswm
<i>Dwysedd 75%</i>			
25,000	4,500.00	933.75	5,433.75
30,000	3,952.50	1,481.25	5,433.75
35,000	3,404.25	2,029.50	5,433.75
40,000	2,856.00	2,577.75	5,433.75
45,000	2,307.75	3,126.00	5,433.75
50,000	1,759.50	3,674.25	5,433.75
55,000	1,211.25	4,222.50	5,433.75
59,200	750.00	4,683.75	5,433.75
<i>Dwysedd 50%</i>			
25,000	3,000.00	622.50	3,622.50
30,000	2,635.00	987.50	3,622.50
35,000	2,269.50	1,353.00	3,622.50
40,000	1,904.00	1,718.50	3,622.50
45,000	1,538.50	2,084.00	3,622.50
50,000	1,173.00	2,449.50	3,622.50
55,000	807.50	2,815.00	3,622.50
59,200	500.00	3,122.50	3,622.50
<i>Dwysedd 25%</i>			
25,000	1,500.00	311.25	1,811.25
30,000	1,317.50	493.75	1,811.25
35,000	1,134.75	676.50	1,811.25
40,000	952.00	859.25	1,811.25
45,000	769.25	1,042.00	1,811.25
50,000	586.50	1,224.75	1,811.25
55,000	403.75	1,407.50	1,811.25
59,200	250.00	1,561.25	1,811.25

Tabl IT7: Hawl myfyrwyr cyrsiau Meistr ôl-raddedig i grant a benthyciad yn ôl lefel incwm (£oedd)

Incwm (£)	Grant (£)	Benthyciad (£)	Cyfanswm (£)
<i>Cwrs blwyddyn</i>			
18,370	6,885.00	10,604.00	17,489.00
20,000	6,651.00	10,838.00	17,489.00
25,000	5,930.00	11,559.00	17,489.00
30,000	5,209.00	12,280.00	17,489.00
35,000	4,488.00	13,001.00	17,489.00
40,000	3,767.00	13,722.00	17,489.00
45,000	3,047.00	14,422.00	17,489.00
50,000	2,326.00	15,163.00	17,489.00
55,000	1,605.00	15,884.00	17,489.00
59,200	1,000.00	16,489.00	17,489.00